**Bwrdd Plismona Cymru**
**Dydd Llun 18 Chwefror 2019 (11:00 – 12:40)**
**Ystafell Digwyddiadau'r Prif Weinidog, Adeiladau'r Goron Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd**

# Cofnodion

## Yn bresennol:

**Y Gwir Anrh. Yr Athro Mark Drakeford AC,** Prif Weinidog (Cadeirydd)
**Jane Hutt AC,** Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
**Vaughan Gething AC**, Gweiniog dros Wasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
**Jeff Cuthbert,** Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent a Chadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan
**Dafydd Llywelyn**, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
**Ann Griffith**, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
**Emma Wools**, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
**Mark Collins**, Prif Gwnstabl, Heddlu Dyfed Powys a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru.
**Carl Foulkes,** Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru
**Matt Jukes**, Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru
**Julian Williams**, Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent
**Robert Evans,** Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan
**Tracey Burke**, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
**Andrew Goodall**, Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/GIG Cymru, Prif Weithredwr, Llywodraeth Cymru
**Reg Kilpatrick,** Adran Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
**Chris Llewellyn,** Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
**Sarah Cooper**, Pennaeth y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru
**Samantha Huckle**, Pennaeth Prentisiaethau, Llywodraeth Cymru
**Lucy Akhtar,** Dirprwy Reolwr Biliau a Pholisi Rhianta, Llywodraeth Cymru
**Cerith Thomas**, Cynghorydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i'r Tîm Plismona Cymru Gyfan
**Uwcharolygydd Steve Thomas,** Uned Cyswllt yr Heddlu
**Sian Curley**, Prif Weithredwr, Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
**Carys Morgans**, Prif Weithredwr, Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
**Helen Hill,** Gweinyddwr Uned Cyswllt yr Heddlu

## Ymddiheuriadau

**Arfon Jones**, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
**Alun Michael,** Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
**Y Cynghorydd Robert Jones,** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## 1. Anerchiad agoriadol y Cadeirydd

1.1 Croesawodd Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru, bawb i'r cyfarfod a gwnaeth pawb a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain i'r Bwrdd.

1.2 Diolchodd Jeff Cuthbert i'r Prif Weinidog am gynnal a chadeirio'r cyfarfod ac esboniodd bod anawsterau wedi bod yn sicrhau presenoldeb gan y Swyddfa Gartref a'r


Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

Weinyddiaeth Gyfiawnder, a threfnwyd cyfarfod ar gyfer yr wythnos wedyn a fyddai, gobeithio, yn gallu nodi ffordd ymlaen o ran sicrhau presenoldeb yn y dyfodol.

1.3 Mynegodd y Prif Weinidog ei fod yn awyddus i bob sefydliad gael ei gynrychioli yn y cyfarfod ac roedd yn edrych ymlaen at glywed pa gynnydd a wnaed o ran presenoldeb y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## 2. Cofnodion a Chamau Gweithredu o gyfarfod 19 Tachwedd 2018

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod a chytunwyd bod y tabl camau gweithredu a ddosbarthwyd yn gywir, gyda phob un o'r camau gweithredu naill ai wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt.

2.2 Materion yn codi:

Cam Gweithredu 7 – Nododd Emma Wools ei bod yn gwerthfawrogi bod Vaughan Gething wedi ymateb yn brydlon i nodyn y Comisiynydd, Alun Michael, ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cam Gweithredu 8 - Cadarnhaodd Jeff Cuthbert ei fod wedi anfon y crynodeb ar bensiynau'r heddlu at gyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd wedi cymryd yn hirach na ddisgwyliwyd yn wreiddiol a gafodd wedyn ei gyfeirio at y Prif Weinidog fel Cadeirydd newydd y Bwrdd.

## 3. Blaenoriaethau a Heriau ar gyfer Plismona yng Nghymru (Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu)

3.1 Esboniodd Jeff Cuthbert y byddai DCC Evans yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglenni cydweithredol presennol yng Nghymru ac, yn dilyn hynny, y byddai pob un o'r Prif Gwnstabliaid yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion penodol yn eu hardal heddlu nhw.

3.2 Nododd DCC Evans fod gweledigaeth blismona i Gymru a oedd yn anelu at gysoni swyddogaethau cefn swyddfa a phrosesau gweithredol erbyn 2025.

3.3 Roedd y weledigaeth yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

-Polisi
-Pobl
-Technoleg

3.4 Un o fuddiannau effeithlonrwydd allweddol y dull cydweithredol oedd mai dim ond unwaith y byddai angen ysgrifennu polisïau a gweithdrefnau ac y byddent yn cael eu rhannu â'r pedwar heddlu ar ôl hynny.

3.5 Esboniodd DCC Evans fod cryn dipyn o waith eisoes wedi'i wneud ym maes adnoddau dynol, recriwtio a hyfforddiant, lle roedd arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cydnabod a gwasanaeth gwell yn cael ei ddarparu i staff/recriwtiaid newydd.

3.6 Gan symud ymlaen, esboniodd DCC Evans fod y ffocws ar leihau nifer y cyrsiau, er mwyn sicrhau ansawdd a lleihau dyblygu.

3.7 Esboniodd DCC Evans fod 16 o raglenni yn cael sylw o dan y categorïau canlynol:

- Prosesau Busnes (h.y. y gallu i unrhyw swyddog heddlu fewngofnodi mewn unrhyw orsaf heddlu yng Nghymru a gweld ei sgrin hafan/cael mynediad at raglenni)
- Cyswllt Cyhoeddus (H.y. Hafan Ar-lein Unigol – adnodd tebyg i 101 ond ar-lein)
- Fforensig/Biometrig
- Rhwydwaith Gwasanaeth Argyfwng (Airwaves)

3.8 Nododd DCC Evans mai Cymru oedd ardal fwyaf gweithredol rhanbarthau Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion (NPCC) o ran cydweithio ar hyn o bryd, a chafodd hynny ei gydnabod ledled y DU.

3.9 Diolchodd y Prif Weinidog i DCC Evans am y wybodaeth ddiweddaraf a gwnaeth gydnabod y cynnydd uchelgeisiol a gyflawnwyd hyd yma.

3.10 Nododd y Prif Weinidog ei fod hefyd yn awyddus i ddatblygu tirwedd gydweithredol ym mhob rhan o'r Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd ei weledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus unigol yng Nghymru, lle y byddai'r ffiniau rhwng sefydliadau yn hydraidd ac felly'n cynnig mwy o gyfleoedd gyrfa rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus. Cydnabuwyd y byddai'n uchelgais heriol ond bod y cyfleoedd a'r buddiannau yn cyfiawnhau'r heriau.

3.11 Gofynnodd y Prif Weinidog i DCC Evans a'r Prif Gwnstabliaid a allai Llywodraeth Cymru ddefnyddio profiad a'r gwersi a ddysgwyd gan yr Heddlu i'w helpu wrth ystyried sut i ddechrau ei rhaglen waith.

3.12 Croesawodd DCC Evans y cyfle i rannu gwersi o'r fath.

**3.13 Cam Gweithredu 1: DCC Evans i gynnig cyfle i Swyddogion Llywodraeth Cymru ddysgu o'r prosiectau cydweithredol a gwblhawyd, sy'n mynd rhagddynt neu sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i greu Gwasanaeth Cyhoeddus unigol yng Nghymru.**

3.14 <u>Y wybodaeth ddiweddaraf gan Heddlu De Cymru:</u>
Rhoddodd CC Jukes grynodeb o'r materion allweddol presennol yn Heddlu De Cymru.

3.15 Nodwyd y gwelwyd cynnydd o 38% mewn troseddau sy'n ymwneud â chyllyll a chynnydd mewn trais gangiau trefol yr oedd llawer ohono yn gysylltiedig â Llinellau Sirol, sef problem roedd pob heddlu yng Nghymru yn ei hwynebu.

3.16 Tynnodd CC Jukes sylw at waith ymchwil a gynhaliwyd ar y cyd gan Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU) a Phrifysgol Caerdydd a oedd wedi canfod cynnydd sylweddol yng ngweithgareddau'r Adain Dde Eithafol.

3.17 Tynnodd CC Jukes sylw at gynnydd mewn adroddiadau o graffiti adain dde eithafol; ac esboniodd, yn wahanol i grwpiau adain dde bellaf yn y gorffennol, fod yr heddlu wedi

dysgu bod eu cefnogwyr a'u haelodau yn ddysgedig, wedi cyfarfod yn y brifysgol o bosibl ac yn hyddysg yn dechnegol. Roedd yr heddluoedd yn chwilio am ffyrdd o sicrhau eu bod yn cael gwybod am fwy o'r unigolion hyn a'u hymddygiadau/troseddau cysylltiedig.

3.18 Codwyd pryderon am gydlyniant cymunedol yn dilyn refferendwm yr UE yn 2016. Roedd heddluoedd yng Nghymru a ledled y DU yn sicrhau bod cynlluniau wrth gefn ar waith gan fod yr heddluoedd yn rhagweld cynnydd mewn troseddau casineb a bygythiadau i unigolion.

3.19 Mae dinasyddion Prydeinig sy'n dychwelyd o Syria yn fygythiad parhaus.

3.20 Tynnodd CC Jukes sylw at y frwydr barhaus yn erbyn peryglon cudd, yn enwedig mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched. Nododd fod Heddlu De Cymru yn parhau i weithio gyda'r gymuned a phartneriaid i feithrin lefelau uwch o ymddiriedaeth, ond roedd bob amser mwy i'w wneud.

3.21 Esboniodd CC Jukes fod sgwrs yn mynd rhagddi gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch y galw plismona unigryw sy'n gysylltiedig â Chaerdydd fel Prif Ddinas, a'r cyllid annigonol a geir ar hyn o bryd. Esboniodd CC Jukes ei fod yn gweithio'n galed i unioni'r gwahaniaeth hwn ac yn aros am yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant er mwyn cael eglurhad pellach.

3.22 Yn y cyfamser, esboniodd CC Jukes, er mwyn ymdrin â'r diffyg parhaus hwn o ran cyllid, ei fod yn siarad â phartneriaid i nodi'r cyfleoedd buddsoddi ar y cyd gorau wrth symud ymlaen.

3.23 Yn olaf, nododd CC Jukes fod y gweithlu ei hun yn faes blaenoriaeth allweddol. Gan ganolbwyntio ar wella amrywiaeth, rhoi'r cynllun prentisiaeth ar waith yn llwyddiannus a chynnig cyfleoedd i raddedigion, nid er mwyn creu heddlu elitaidd ond er mwyn galluogi heddlu a oedd yn cynnig cyfleoedd o ran symudedd cymdeithasol.

3.24 <u>Y wybodaeth ddiweddaraf gan Heddlu Gwent</u>
Esboniodd CC Williams fod llawer o'r hyn a ddywedodd CC Jukes yn debyg yn ardal Gwent hefyd, ac i osgoi ailadrodd, tynnodd sylw at sawl maes arall sy'n benodol i'r heddlu.

3.25 Cafodd Tîm Plant sydd ar Goll Gwent ganmoliaeth genedlaethol gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru am y gwaith a wnaed gyda phartneriaid. Y nod bellach oedd sicrhau bod cyllid ar gael o hyd.

3.26 Esboniodd CC Williams, dros y blynyddoedd diwethaf, fod heddlu Gwent wedi colli 271 o swyddogion o ganlyniad i doriadau i'r gyllideb. Gyda chymorth gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, roedd yr heddlu wedi gallu cynyddu ei niferoedd i 1,330. Fodd bynnag, roedd hynny'n golygu bod llawer o swyddogion profiadol wedi gadael a bod gan ardal Gwent broffil heddlu ifanc.



Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

3.27 Gwnaeth CC Williams hefyd dynnu sylw at y broses gynllunio wrth gefn yng Ngwent cyn tynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth. Yn ogystal â hyn, roedd y Ganolfan Gynadledda, a oedd yn cael ei hadeiladu yng Nghasnewydd, yn debygol o ddenu digwyddiadau sylweddol, cynadleddau pleidiau gwleidyddol o bosibl a digwyddiadau tebyg. Pe byddai hynny'n wir, mae'n debygol y byddai plismona digwyddiadau o'r fath yn gofyn am adnoddau sylweddol.

3.28 <u>Y wybodaeth ddiweddaraf gan Heddlu Gogledd Cymru</u>
Nododd CC Foulkes nad oedd am ailadrodd bygythiadau/pwysau cyffredin ar Heddlu Gogledd Cymru chwaith, am fod eraill eisoes wedi'u nodi.

3.29 Tynnodd sylw at effaith weithredol Gogledd-orllewin Lloegr a heriau penodol ac unigryw sy'n gysylltiedig â Chaergybi ar Heddlu Gogledd Cymru.

3.30 Esboniodd y gwelwyd cynnydd mewn troseddau mwy cymhleth yn ardal yr heddlu ac roedd wedi cael cymorth da gan ei Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn sicrhau bod adnoddau ar gael i fynd i'r afael â hyn.

3.31 Nododd CC Foulkes fod Heddlu Gogledd Cymru yn arestio gormod o bobl o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac roedd hynny'n annerbyniol (y lefel uchaf yn y DU).

3.32 Tynnwyd sylw at hela llwynogod fel her wleidyddol a chyfreithiol gynyddol anodd yng Ngogledd Cymru.

3.33 Gwnaeth Ann Griffith, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, dynnu sylw at y pryderon parhaus ynghylch Gorsaf Bŵer Niwclear yr Wylfa ar Ynys Môn. Er ei bod yn cydnabod y newyddion cadarnhaol bod Hitachi wedi gohirio'r prosiect ac nad oedd wedi tynnu allan ohono, esboniodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Griffith fod yr heddlu wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod cynlluniau wrth gefn ar waith. Cododd Ms Griffith bryderon ynghylch pa mor barod oedd partneriaid eraill heb eu datganoli a phartneriaid datganoledig eraill o ran goblygiadau cytundebol er mwyn osgoi unrhyw liniaru posibl.

3.34 <u>Y wybodaeth ddiweddaraf gan Heddlu Dyfed Powys</u>
Nododd CC Collins y byddai ef hefyd yn ceisio peidio ag ailadrodd y materion a godwyd eisoes lle y bo'n bosibl.

3.35 Nododd yn ardal Dyfed Powys, yn debyg i ardaloedd heddlu eraill, fod swyddogion yr heddlu yn nodi mai dim ond 20% o'u llwyth achosion oedd yn ymwneud â throseddau, roedd yr 80% sy'n weddill yn ymwneud â materion cymdeithasol/pobl sy'n agored i niwed.

3.36 Roedd Llinellau Sirol, fel y soniwyd amdanynt yn flaenorol, yn broblem benodol i Heddlu Dyfed Powys a oedd wedi'i sefydlu'n gadarn ym mhob un o'r pedair sir. Er bod cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo gyda llwyddiannau ysgubol mewn rhai meysydd, roedd troseddau treisgar a throseddau sy'n ymwneud â chyllyll yn cynyddu.

3.37 Tynnodd CC Collins sylw at yr adolygiad o Bobl sy'n Agored i Niwed a llwyddiant y Ddesg i Bobl sy'n Agored i Niwed a oedd yn cael ei gweithredu o'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid.

3.38 Codwyd yr effaith ar yr Uned Forol sydd wedi'i lleoli yn Aberdaugleddau. Esboniodd CC Collins fod mwy na 100 o longau yn teithio drwy'r ardal bob dydd a bod angen i'r Uned Forol gadarnhau'r rhestr manylion yn nodi pwy oedd ar fwrdd pob llong.

3.39 Diolch i'r Strategaeth Troseddau Gwledig a gyflwynwyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, bu cynnydd yn nifer y troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Esboniodd CC Collins fod y 148 o Swyddogion Cymorth Cymunedol a oedd yn gweithio ar droseddau gwledig wedi gwneud gwahaniaeth hollbwysig yn y gymuned wledig.

3.40 Esboniodd PCC Dafydd Llywelyn fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mhob un o'r heddluoedd yn rhan o nifer o brosiectau, gan gynnwys y rheini y gwnaeth DCC Evans eu disgrifio fel galluogwyr yn flaenorol. Fodd bynnag, roeddent yn cael eu hariannu drwy broses frigdorri gan y llywodraeth ganolog yn hytrach na chyllid newydd, ychwanegol. Gwnaeth PCC Llywelyn hefyd gwestiynu p'un a oedd Heddluoedd Cymru wedi cael cyfran deg o ystyried y boblogaeth ac roedd hynny'n rhywbeth roedd am gael cadarnhad yn ei gylch.

3.41 Nodwyd prosiect 'NOMADs' fel enghraifft. Roedd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Emma Wools wedi bod yn rhan o'r prosiect ers y dechrau a bu'n rhan o'r ymdrech i sicrhau cyllid o hanner miliwn o bunnoedd.

3.42 Gwnaeth PCC Jeff Cuthbert gydnabod y byddai lefel gyllid y llywodraeth ganolog ar gyfer plismona ledled Cymru a Lloegr yn parhau i leihau. O ganlyniad i hynny, rhagwelwyd y byddai angen i braesept yr heddlu godi mwy a mwy o arian. Awgrymwyd mai'r rhagolwg ar gyfer y dyfodol oedd y byddai mwy o arian yn cael ei godi drwy'r braesept lleol na thrwy'r llywodraeth ganolog.

3.43 Gofynnodd y Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip, Jane Hutt, am eglurhad ynghylch troseddau sy'n ymwneud â chyllyll, yn benodol faint o drais yn erbyn menywod y mae heddluoedd yn ei weld.

3.44 Nododd y Prif Weinidog fod Gogledd Cymru yn un o'r ychydig o heddluoedd a welodd ostyngiad mewn troseddau treisgar.

3.45 Esboniodd CC Foulkes eu bod o'r farn bod hyn am eu bod wedi gweld cynnydd eithriadol ychydig yn ôl, a bod y gostyngiad wedi dychwelyd i lefelau 'arferol' ar gyfer Gogledd Cymru.

3.46 Nododd CC Jukes, er mwyn lleihau troseddau treisgar fod angen mwy o bartneriaeth. Nodwyd bod model Plismona'r Alban yn bosibilrwydd.

3.47 Esboniodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, mewn perthynas â'r pwynt ynglŷn ag Wylfa Newydd a wnaed gan Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Griffith, fod Llywodraeth Cymru yn ystyried y penderfyniad gan Horizon i beidio â thynnu allan fel arwydd da. Ei gyngor i Weision Sifil oedd sicrhau eu bod yn parhau i fod yr un mor heriol a beirniadol o'r gwaith a'r gweithdrefnau. Nid oedd paramedrau'r caniatâd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru wedi newid yn yr ystyr y byddai'r broses yr un mor drylwyr ar draul y bobl leol.

3.48 Cytunwyd y dylai'r wybodaeth ddiweddaraf gan Brif Gwnstabliaid fod yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.

## 4. Iechyd Meddwl

4.1 Esboniodd CC Collins mai ef oedd yn gyfrifol am y portffolio Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ac ACC Drake oedd yr arweinydd yng Nghymru.

4.2 Nododd CC Collins ei fod wedi cyfarfod ag Andrew Goodall yn gynharach y bore hwnnw ac roedd y cyfarfod yn ddefnyddiol. Gwnaethant drafod yr Adolygiad Cenedlaethol o Iechyd Meddwl.

4.3 Aeth CC Collins ymlaen i dynnu sylw at y canlynol:

4.4 Roedd yr adolygiad o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 o dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Simon Wesley yn ceisio atal y defnydd o gelloedd yr heddlu i gadw pobl o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Nodwyd y gwelwyd gostyngiad yn y defnydd o gelloedd yr heddlu ar gyfer y sawl a gedwir o dan Adran 136.

4.5 Yn ogystal â hyn, byddai pobl o dan Adran 136 ond yn cael eu trosglwyddo mewn ambiwlans. Rhoddodd CC Collins enghraifft, yn Heddlu Dyfed Powys, y gall gymryd sifft cyfan swyddog i drosglwyddo claf i asesiad ac oddi yno.

4.6 Roedd brysbennu ar y stryd yn adnodd a oedd yn cael ei ddefnyddio'n dda. Roedd y rhan fwyaf o'r 43 o heddluoedd yn ei ddefnyddio mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn bennaf gyda swyddog yr heddlu a gweithiwr Iechyd Meddwl yn cydweithio. Nododd CC Collins fod y gweithiwr Iechyd Meddwl yn cael ei ariannu gan yr heddlu a oedd yn defnyddio'r gweithiwr hwnnw.

4.7 Roedd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol wrthi'n cael ei lunio i leihau'r galw ar Wasanaeth yr Heddlu.

4.8 Nododd CC Collins y gwahoddiad i gyfrannu at ymgynghoriad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad Cenedlaethol: Iechyd meddwl ym maes plismona a dalfa'r heddlu, a oedd yn ystyried y Concordat Gofal mewn Argyfwng. Croesawodd CC Collins y gwahoddiad ac esboniodd ei fod o'r farn bod hwn yn gam cadarnhaol ac y byddai'n awyddus i roi adborth.

4.9 Gofynnodd PCC Llywelyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, am eglurhad ynghylch y gyfran a gaiff poblogaeth Cymru o'r £2.3 biliwn a gynigwyd gan Drysorlys EM ar gyfer y galw ar Blismona o ganlyniad i broblemau Iechyd Meddwl pan gaiff ei addasu i ystyried symiau canlyniadol Barnett a oedd yn cyfateb i £113 miliwn i Gymru.

4.10 Esboniodd Mr Gething y byddai angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir pa arian oedd yn 'ychwanegol'. Esboniwyd, yn aml, y gwneir cyhoeddiadau sy'n cyfeirio at arian sydd wedi cael ei symud o gyllidebau gwahanol ond sy'n ymddangos fel arian newydd, ond nad yw'n arian newydd. Nododd Mr Gething, pan fyddai Llywodraeth Cymru yn cael eglurhad pellach, y byddai'n cysylltu â'r Comisiynwyr a'r Prif Gwnstabliaid.

4.11 Ychwanegodd Mr Gething, yng Nghymru, post Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag Iechyd Meddwl a'i bod wedi buddsoddi mwy o arian newydd (nid ymrwymo i wneud hynny yn unig) mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl. Nododd Mr Gething y byddai'n ddefnyddiol cael cynrychiolydd o'r Swyddfa Gartref yn bresennol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol ar gyfer ymholiadau fel hyn gan y gallent egluro o ble roedd y cyllid yn dod.

4.12 Nododd Mr Gething y byddai'n fodlon mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cytunodd Andrew Goodall hefyd bod y cyfarfod gyda CC Collins y bore hwnnw wedi bod yn gadarnhaol. Cyfeiriodd Mr Goodall at enghreifftiau o gydweithio gyda gwasanaeth yr heddlu ar lefel genedlaethol. Soniwyd yn benodol am yr angen i ganolbwyntio ar fentrau yn Ne Cymru ac i ddysgu o'u gwerthusiadau. Roedd y gwaith o werthuso iechyd meddwl yn mynd rhagddo a soniwyd am yr anawsterau sy'n gysylltiedig â delio ag iechyd meddwl mewn cymunedau gwledig.

**4.13 Cam Gweithredu 2: CC Mark Collins i rannu'r ddogfen Brysbennu ar y Stryd gydag Andrew Goodall.**

4.14 Esboniodd CC Jukes, o ran Iechyd Meddwl, fod heddluoedd hefyd yn fwy ymwybodol o effeithiau trawma ar eu swyddogion a'u staff. Nododd CC Jukes y byddai'n fodlon sicrhau bod y newyddion diweddaraf yn cael ei ddarparu yn y fforwm hwn.

4.15 Gwnaeth y Prif Weinidog hefyd ofyn i Andrew Goodall ddarparu papur diweddaru ar Iechyd Meddwl yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

**4.16 Cam Gweithredu 3: ACC Drake i ddarparu papur diweddaru ar y cynnydd a wnaed ers y cyfarfod diwethaf, gan ystyried rhaglen waith i fynd i'r afael ag Iechyd Meddwl cadarnhaol staff ac ymateb i achosion o drawma sy'n seiliedig ar waith.**

**4.17 Cam Gweithredu 4: Andrew Goodall i ddarparu papur diweddaru ar gynnydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Iechyd Meddwl yn y cyfarfod nesaf.**



Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

4.18 Gadawodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, y cyfarfod.

## 5. <u>Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn deillio o gyfarfod cyntaf y Bwrdd Plismona ar 19 Tachwedd</u>

5.1 Rhoddodd CC Jukes drosolwg o'r sefyllfa Troseddau Cyfundrefnol Difrifol bresennol yng Nghymru.

5.2 Roedd Castell-nedd a Phort Talbot ac Abertawe ymhlith y 10 uchaf ledled y DU ar gyfer marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac fe'u hystyriwyd fel marchnadoedd a oedd yn agored i gamfanteisio.

5.3 Esboniodd CC Jukes fod ymateb i ddigwyddiad critigol wedi'i roi ar waith i fynd i'r afael â'r broblem. Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oedd yn delio â'r broses hon. Roedd yn canolbwyntio ar Blant sydd ar goll, Plant sy'n Derbyn Gofal a Chyffuriau (ond nid y rhain yn unig).

5.4 Yn ogystal â'r materion sy'n codi o'r cyfarfod diwethaf a thrafodaethau dilynol, esboniodd CC Jukes fod pedwar argymhelliad i Lywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol:

5.5 1) Roedd yr ymatebion gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol yn anghyson ac roedd angen iddynt ddeall eu pwysigrwydd yn well. Cynigodd CC Jukes i helpu i ddatblygu dealltwriaeth o droseddau cyfundrefnol a chroesawodd cymorth gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y Byrddau'n cael eu harwain yn addas.

5.6 2) Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth (MASH) – Gwnaeth Reg Kilpatrick, Albert Heaney ac ACC Drake gyfarfod yn ddiweddar i drafod y MASH. Nodwyd eu bod yn anghyson. Byddai gwerthusiad o'u defnydd yn helpu i nodi pa faterion craidd y dylai pob MASH ymrwymo i fynd i'r afael â nhw.

5.7 3) Ymgysylltu ar lefel Lywodraeth – Defnyddiwyd enghraifft Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau mawr yn hollbwysig. Er bod parodrwydd i weithio gyda swyddogion yn Llywodraeth Cymru, ni welwyd cynnydd digonol o ran trefnu cyfarfod/bwrdd rhwng yr Heddlu ac adrannau'r Llywodraeth. Roedd CC Jukes yn awyddus i gydnabod bod gwaith da yn cael ei wneud ond roedd cyfle i wella cysylltiadau.

5.8 4) Uned Lleihau Trais (Yn debyg i'r hyn sydd yn yr Alban) - Tynnodd CC Jukes sylw at y ffaith bod Cymru yn arwain y byd yn y maes hwn a chyfeiriodd at waith Jon Sheppard a Rhaglen Caerdydd. Esboniodd CC Jukes fod yr Heddlu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn barod i ymrwymo



Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

adnoddau, ond y dylid gofyn i Lywodraeth Cymru a yw'n awyddus i gefnogi?

5.9 Ymatebodd Reg Kilpatrick mewn perthynas ag argymhelliad 3) ac esboniodd ei fod ef ac ACC Drake yn cadeirio'r Rhaglen Contest ar y cyd ar hyn o bryd a bod y rhaglen yn gweithio'n dda iawn. Nododd hefyd fod potensial ar gyfer cyfarfod tebyg. Yr hyn a oedd yn anodd oedd bod gan y Llywodraeth gyfres gymhleth o drefniadau llywodraethu mewn perthynas â Throseddau Difrifol a Chyfundrefnol a chadarnhawyd y dylid ymchwilio i hyn ymhellach.

5.10 Awgrymodd y Prif Weinidog Mark Drakeford, pe byddai'r fforwm yn dod at ei gilydd, yna dylai Awdurdod Cyllid Cymru fod yn gorff gwadd.

5.11 O ran y Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth, gofynnodd y Prif Weinidog beth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud er mwyn lledaenu'r neges? Awgrymwyd bod angen i CC Jukes a chydweithwyr o Lywodraeth Cymru drafod er mwyn ystyried asesiad o anghenion i nodi'r ffordd ymlaen.

**5.12 Cam Gweithredu 5: Swyddogion Llywodraeth Cymru i hwyluso trafodaethau â CC Jukes er mwyn dechrau asesiad o anghenion mewn perthynas â Chanolfannau Diogelu Amlasiantaeth.**

5.13 Nododd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Ann Griffith, o ran argymhelliad 1), efallai mai'r ateb yw grymuso Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol yn well, a'r ffordd y maent yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus. Awgrymodd Mr Goodall, y gallai defnyddio enghreifftiau a gwybodaeth am sut i gyfeirio, neu gael sesiwn briffio, fod yn ddefnyddiol.

Cefnogodd PCC Dafydd Llywelyn a Jeff Cuthbert farn Ms Griffith ar rymuso a chadarnhawyd fod pob PCC yn ymwneud yn sylweddol â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 6. <u>Gweithio mewn partneriaeth gan gynnwys:</u>

### 6.1 <u>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</u>

Cyflwynodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Emma Wools bapur ar ran PCC Alun Michael. Cafodd y papur ei ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod ac esboniodd Ms Wools mai'r prif ddiben oedd cael cyfarwyddyd gan y Prif Weinidog o ran sut i symud ymlaen.

6.2 Tynnodd Ms Wool sylw at y ffaith bod rhywfaint o ddatgysylltu rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chroesawodd gymorth gan Lywodraeth Cymru o ran sicrhau trafodaeth ehangach.

6.3 Cytunodd pob PCC na ddylai camau gweithredu fod yn fater i'r heddlu yn unig.



Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

6.4 Nododd y Prif Weinidog ei fod wedi dweud wrth ei blaid, yn ystod ei gyfnod yn y swydd, na fyddai'n mynd ati i ddiwygio ôl-troed Llywodraeth Leol ond, yn hytrach, y byddai'n mynd ati i gysoni a symleiddio'r fframweithiau cyfreithiol.

6.5 Nododd y Prif Weinidog y gallai gynnig ymrwymiad i annog ymgysylltu cadarnhaol â'r agenda gydweithredol.

6.6 Croesawodd Chris Llewellyn, Prif Weithredwr CLlLC sylwadau'r Prif Weinidog. Fodd bynnag, nododd ei bod yn anodd nodi gwerth ychwanegol. Esboniodd ei bod yn anodd weithiau sicrhau'r cydbwysedd cywir wrth ddarparu gwasanaethau.

6.7 Gwnaeth Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Emma Wools wahodd y Prif Weinidog i roi sylwadau ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diogelwch Cymunedol.

6.8 Ymatebodd y Prif Weinidog drwy nodi ei fod wedi siarad â Chomisiynydd Alun Michael sawl gwaith am y mater hwn. Gallai newidiadau bach gael effaith fawr ar gymunedau ac er bod Cymru yn un o'r gwledydd mwyaf diogel i fyw ynddi, nid oedd canfyddiadau bob amser yn adlewyrchu hynny. Cytunwyd nad problem blismona yn unig ydoedd a byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i gael trafodaethau â CLlLC, Cynghorau ac ati.

6.9 Tynnodd y Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip, Jane Hutt sylw at ei diddordeb ym mhartneriaeth Blueprints, ei gwaith gyda'r bartneriaeth a'i hymrwymiad iddi. Esboniwyd bod Ms Hutt wedi cyfarfod ag aelodau allweddol yn Llywodraeth y DU a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynglŷn â'r mater hwn yn ddiweddar a'i bod yn bwriadu ymweld â dwy fenyw a oedd yn y carchar y tu allan i Gymru yr wythnos nesaf.

## 7. <u>Cyswllt Ysgolion</u>

7.1 Diolchodd PCC Dafydd Llywelyn i'r Prif Weinidog am y cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/2020. Esboniodd Mr Llywelyn fod DCC Richard Lewis o Heddlu De Cymru yn cynnal adolygiad a byddai ar gael ym mis Ebrill 2019.

7.2 Tynnodd Mr Llywelyn sylw at y ffaith bod y rhaglen yn dod o dan y Gyllideb Iechyd ar hyn o bryd ac efallai y byddai o fudd ei hailgysoni â maes Addysg.

7.3 Esboniwyd y byddai buddiannau'r rhaglen yn cael eu cynnwys yn llawn yn yr adolygiad, ond tynnwyd sylw at werth a phwysigrwydd sylweddol y rhaglen ysgolion Cymru gyfan mewn perthynas â'r dull gweithredu cyfiawnder adferol a'r effaith roedd yn ei chael ar leihau nifer y bobl ifanc oedd yn mynd i mewn i'r system gyfiawnder troseddol.

7.4 Nododd y Prif Weinidog ei fod yn edrych ymlaen at weld yr adolygiad pan fyddai ar gael a'i fod yn cymeradwyo ac yn cefnogi gwaith y rhaglen mewn ysgolion yn llwyr.


Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

## 8. Lefi Prentisiaeth

8.1 Rhoddodd y Comisiynydd Jeff Cuthbert adolygiad o'r anawsterau parhaus o ran sicrhau bod gan Heddluoedd Cymru fynediad i gyllid er mwyn gallu darparu hyfforddiant addysgol i swyddogion drwy'r fframwaith PEFQ. Gwnaeth Mr Cuthbert gydnabod y £600k a roddwyd gan y Swyddfa Gartref a gwnaeth gydnabod a diolch i'r Prif Weinidog am y £400k a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol gan nodi maint taliadau untro oeddent.

8.2 Gofynnodd Mr Cuthbert i'r Prif Weinidog egluro sut y gallai Heddluoedd yng Nghymru sicrhau bod ganddynt fynediad i'r cyllid roedd ganddynt yr hawl iddo yn y dyfodol. Mewn egwyddor, heb y cyllid hwnnw, ni fyddai Swyddogion yng Nghymru yn gallu manteisio ar yr un lefel o hyfforddiant â'u cydweithwyr yn Lloegr.

8.3 Mynegodd y Prif Weinidog ddealltwriaeth glir o'r broblem y mae'r heddluoedd yn ei hwynebu, gan nodi mai ef oedd y Gweinidog Cyllid yn ystod yr adeg pan roddwyd y £400k.

8.4 Nododd y Prif Weinidog y byddai'n fodlon codi'r broblem hon yn ystod trafodaethau CSR.

8.5 Ychwanegodd Sam Huckle ei bod hi a'i thîm yn deall y pwysau ariannol a'r anawsterau y mae'r heddlu yn eu hwynebu a'r gofyniad ar gyfer lefel yr hyfforddiant y mae'n rhaid i swyddogion ymgymryd â hi, fel y nodir yn y rheoliadau.

8.6 Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru yn glir o ran y ffaith bod cyllido hyfforddiant swyddogion yr heddlu yn un o gyfrifoldebau Llywodraeth y DU. Esboniodd Ms Huckle, lle bynnag y bo'n bosibl, fod Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth ac yn gwneud pob ymdrech i helpu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arian i roi i'r heddluoedd er mwyn cefnogi'r PEQF yn ariannol.

8.7 Diolchodd CC Jukes i Ms Huckle a'i thîm am eu holl waith a rhoddodd sicrwydd ynghylch y broses recriwtio a fyddai'n dechrau ar ddiwedd mis Mawrth. Esboniodd CC Jukes nad gradd lefel mynediad ydoedd, ond ei bod yn rhoi cyfle i unigolion nad ydynt wedi cyflawni gradd lefel mynediad, weithio tuag ati. Gobeithio y byddai'r system newydd yn flaengar ac y byddai'n helpu i sicrhau gweithlu mwy cynrychioliadol.

8.8 Gofynnodd Comisiynydd Llywelyn i Lywodraeth Cymru barhau i dynnu sylw'r Swyddfa at y diffyg fel rhan o'r CSR.

**8.9 Cam Gweithredu 6: Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'n ystyried trefniadau cyllido'r lefi Prentisiaeth fel rhan o'r broses ar gyfer pennu cyllid.**

## 9. Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol

9.1 Diolchodd Carl Foulkes i Uned Gyswllt yr Heddlu am ei chymorth wrth rannu pryderon yr Heddlu gyda Llywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud yn bennaf â throseddoli rhieni. Er bod ymchwil yn awgrymu bod y niferoedd yn isel, nid oedd yn ffactor hysbys.

9.2 Esboniodd CC Foulkes mai ACC Drake oedd y Prif Swyddog arweiniol ar gyfer y maes hwn ac aeth ymlaen i graffu ar y gost weithredu.

9.3 Esboniodd y Dirprwy Weinidog Jane Hutt ei bod yn ymwybodol o'r cyfarfod dros y ffôn â Julie Morgan a rhoddodd sicrwydd i'r aelodau bod eu sylwadau wedi cael eu clywed.

9.4 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Uned Gyswllt am y ffigurau a ddarparwyd, gan ychwanegu y byddent yn hollbwysig yn y broses gwneud penderfyniadau. Y Dirprwy Weinidog Julie Morgan oedd yn arwain ar y prosiect ar ran Jane Hutt, ac o safbwynt Llywodraeth Cymru, roedd yn ymwneud â newid diwylliannol ac nid troseddoli rhieni a chanlyniadau anfwriadol eraill.

9.5 Nododd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio gyda'r heddlu a'i fod yn obeithiol y byddai'r cyhoedd yn croesawu'r newid.

## 10. <u>Cynllunio wrth gefn ar gyfer Brexit</u>

10.1 Diolchodd Reg Kilpatrick i gydweithwyr yr heddlu am dynnu sylw at y risgiau lleol ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau wrth gefn.

10.2 Dywedwyd wrth y Bwrdd bod Uwcharolygydd Andy Valentine yn cael secondiad i Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i sicrhau llif gwybodaeth briodol rhwng Llywodraeth Cymru a'r heddluoedd.

10.3 Nododd Mr Kilpatrick fod gwaith sylweddol yn mynd rhagddo, ac o ystyried nifer y ffactorau anhysbys, credwyd eu bod yn y sefyllfa orau bosibl ar hyn o bryd.

10.4 Cyflwynodd CC Williams gais cwrtais gan yr heddluoedd, o ran y galw a'r gofynion arnynt, gan nodi y gallant wneud mwy â llai, a gofynnodd i geisiadau gael eu cadw'n rhanbarthol er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu.

10.5 Esboniodd y Prif Weinidog bod Cymru a'r Alban wedi cael gwahoddiad i gyfarfod Is-gabinet llywodraeth y DU a oedd yn cyfarfod bob wythnos. Nododd Mr Drakeford fod gweinyddiaethau eraill yn genfigennus iawn am fod gennym y gallu i gysylltu â phob adran a rhanddeiliad allweddol yn gyflym ac yn effeithiol yng Nghymru.

## 11. <u>Trefniadau'r dyfodol ar gyfer y Bwrdd Plismona</u>

11.1 Cytunodd pob aelod y dylai Bwrdd Plismona Cymru barhau. Ond cydnabuwyd efallai bod angen newid y teitl.

11.2 Cadarnhaodd y Prif Weinidog ei fod yn ymrwymedig i weithio gyda'r heddlu a chadarnhaodd, lle roedd yr agenda yn caniatáu, y byddai Gweinidogion eraill yn cael eu gwahodd.

## 12. Eitemau agenda'r dyfodol

12.1 Trafodwyd y rhestr o eitemau posibl ar gyfer yr agenda yn fras iawn oherwydd cyfyngiadau amser. Cytunwyd y gellid ei thrafod y tu allan i'r cyfarfod.

12.2 O ystyried y cyfyngiadau amser, awgrymwyd efallai bod angen dewis eitemau'r agenda yn fwy gofalus er mwyn sicrhau digon o amser i gael trafodaeth ystyriol.

**12.3 Cam Gweithredu 7: Yr Uned Gyswllt i gysylltu â Swyddogion Llywodraeth Cymru i gynllunio'r agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

12.4 Diolchodd y Prif Weinidog i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniad a chadarnhaodd y byddai ef a Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog, yn cadeirio'r cyfarfod rhyngddynt, yn dibynnu ar ymrwymiadau eu dyddiaduron.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:40

## Tabl camau gweithredu – Camau gweithredu newydd o gyfarfod 18/02/19

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| 3.13<br>1) DCC Evans i gynnig cyfle i Weision Sifil ddysgu o'r prosiectau cydweithredol a gwblhawyd, sy'n mynd rhagddynt neu sydd i ddod. Ar yr un adeg ag yr oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gynllunio ar gyfer creu Gwasanaeth Cyhoeddus unigol. | DCC Robert Evans |
| 4.14<br>2) CC Mark Collins i rannu'r ddogfen Brysbennu ar y Stryd gydag Andrew Goodall. | CC Mark Collins |
| 4.17<br>3) ACC Drake i ddarparu papur diweddaru ar y cynnydd a wnaed ers y | CC Jukes/ ACC Drake |



Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

| | |
|---|---|
| cyfarfod diwethaf, gan ystyried rhaglen waith i fynd i'r afael ag Iechyd Meddwl cadarnhaol staff ac ymateb i achosion o drawma sy'n seiliedig ar waith. | |
| 4.18<br>4) Andrew Goodall i ddarparu papur diweddaru ar gynnydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Iechyd Meddwl yn y cyfarfod nesaf. | Andrew Goodall |
| 5.12<br>5) Swyddogion Llywodraeth Cymru i hwyluso trafodaethau â CC Jukes er mwyn dechrau asesiad o anghenion mewn perthynas â Chanolfannau Diogelu Amlasiantaeth. | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 8.9<br>6) Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'n ystyried trefniadau cyllido'r lefi Prentisiaeth fel rhan o'r broses ar gyfer pennu cyllid. | Y Prif Weinidog |
| 12.3<br>7) Yr Uned Gyswllt i gysylltu â Swyddogion Llywodraeth Cymru i gynllunio'r agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. | Yr Uned Gyswllt a Swyddogion Llywodraeth Cymru |



Not protectively marked - Dim marciau diogelwch